OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 887 (Cy.118) (C.26)

# GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB, CYMRU A LLOEGR LLYWODRAETH LEOL, CYMRU TAI, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Lleoliaeth 2011 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Arbed) (Cymru) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *14 Mawrth 2012* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 240(3), (4) a (7) o Ddeddf Lleoliaeth 2011(**1**).

**Enwi a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Lleoliaeth 2011 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Arbed) (Cymru) 2012.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "Deddf 2004" ("*the 2004 Act*") yw Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004(**2**); ac

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Lleoliaeth 2011.

**Y diwrnod penodedig i ddarpariaethau ddod i rym o ran Cymru a Lloegr**

**2.** Y diwrnod penodedig i ddarpariaethau canlynol y Ddeddf ddod i rym, i'r graddau y maent yn ymwneud â Chymru a Lloegr, yw 1 Ebrill 2012—

(a) adran 9(1) i'r graddau y mae'n mewnosod—

(i) adrannau 5A a 5B newydd yn Neddf 2004 i'r graddau y maent yn ymwneud ag awdurdodau tân ac achub yng Nghymru,

(ii) adrannau 5C a 5D newydd yn Neddf 2004 i'r graddau y maent yn ymwneud â phŵer Gweinidogion Cymru i wneud gorchmynion, a

(**1**) 2011 p.20.
(**2**) 2004 p.21.

(iii) adrannau 5F i 5L newydd yn Neddf 2004;

(b) adran 9(2) i'r graddau y mae'n ymwneud ag awdurdodau tân ac achub yng Nghymru;

(c) adran 9(3), (6) a (7)(a) ac (c);

(d) adran 9(7)(b) i'r graddau y mae'n mewnosod adran 62(1A)(a) a (d) newydd yn Neddf 2004;

(e) adran 9(7)(b) i'r graddau y mae'n mewnosod adran 62(1A)(b) newydd yn Neddf 2004 i'r graddau y mae'n ymwneud â phŵer Gweinidogion Cymru i wneud gorchmynion;

(f) adran 10(1) i (3) a (5) i'r graddau y mae'n ymwneud ag awdurdodau tân ac achub yng Nghymru;

(g) adran 10(4);

(h) i'r graddau y maent yn ymwneud ag awdurdodau tân ac achub yng Nghymru, y cofnodion ar gyfer adrannau 5 ac 19 o Ddeddf 2004 yn Rhan 2 o Atodlen 25, ac adran 237 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r cofnodion hynny; ac

(i) y cofnod ar gyfer adran 62(3) o Ddeddf 2004 yn Rhan 2 o Atodlen 25, ac adran 237 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r cofnod hwnnw.

### Y diwrnod penodedig i ddarpariaethau ddod i rym o ran Cymru

**3.** Y diwrnod penodedig i ddarpariaethau canlynol y Ddeddf ddod i rym, i'r graddau y maent yn ymwneud â Chymru, yw 1 Ebrill 2012—

(a) adran 46;

(b) yn ddarostyngedig i erthygl 4, adran 162(3) (b) ac (c); ac

(c) Rhannau 7 a 10 o Atodlen 25, ac adran 237 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r Rhannau hynny.

### Darpariaeth arbed

**4.**—(1) Mae'r ddarpariaeth arbed ganlynol yn cael effaith.

(2) Mae'r diwygiadau a wneir gan adran 162(3)(b) ac (c) o'r Ddeddf yn gymwys mewn perthynas â thenantiaeth os bu farw'r tenant diogel, y cyfeirir ato yn adran 89(1) neu 90(1) (yn ôl fel y digwydd) o Ddeddf Tai 1985(**3**) ("y tenant blaenorol"), ar neu ar ôl 1 Ebrill 2012.

(3) Nid yw'r diwygiadau hynny yn gymwys os bu farw'r tenant blaenorol cyn y dyddiad hwnnw.

(4) Mae i'r geiriau ac ymadroddion a ddefnyddir yn yr erthygl hon, yr un ystyr a roddir i eiriau ac ymadroddion Saesneg cyfatebol yn Rhan 4 o Ddeddf Tai 1985 ac yn Atodlen 2 i'r Ddeddf honno.

*Carl Sargeant*
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

14 Mawrth 2012

(**3**) 1985 c. 68.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Hwn yw'r ail Orchymyn Cychwyn a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Lleoliaeth 2011 ("y Ddeddf").

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn yn dwyn i rym ar 1 Ebrill 2012, o ran Cymru a Lloegr, rannau o adrannau 9 a 10 sy'n ymwneud â phwerau awdurdodau tân ac achub yng Nghymru.

Mae erthygl 3 yn dwyn i rym ar 1 Ebrill 2012, o ran Cymru, adran 46 sy'n diddymu darpariaethau yn Neddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009, ynghylch deisebau i awdurdodau lleol; adran 162(3)(b) ac (c), sy'n gwneud diwygiadau yn y seiliau ar gyfer adennill meddiant mewn perthynas â thenantiaethau diogel yn dilyn marwolaeth tenant blaenorol; a darpariaethau diddymu cysylltiedig yn adran 237 ac Atodlen 25.

Mae erthygl 4 yn gwneud darpariaeth arbed.

## NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r darpariaethau canlynol o'r Ddeddf wedi eu dwyn i rym ar 31 Ionawr 2012 o ran Cymru, gan Orchymyn Deddf Lleoliaeth 2011 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2012 (2012/193) (Cy.31) (C.6);

(a) Adrannau 38 i 43; a

(b) Adran 69.

Mae darpariaethau canlynol y Ddeddf wedi eu dwyn i rym o ran Cymru a Lloegr gan orchmynion cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

| *Darpariaeth* | *Dyddiad cychwyn* | *O.S. Rhif* |
|---|---|---|
| Adran 1(1) i (6) | 18.2.2012 | 2012/411 (C. 11) |
| Adrannau 2 i 7 | 18.2.2012 | 2012/411 (C. 11) |
| Adran 8(2) | 3.12.2011 | 2011/2896 (C. 103) |
| Adran 8 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym) | 18.2.2012 | 2012/411 (C. 11) |
| Adrannau 9 a 10 (yn rhannol) | 18.2.2012 | 2012/411 (C. 11) |
| Adrannau 11 i 14 | 18.2.2012 | 2012/411 (C. 11) |
| Adran 15 | 3.12.2011 | 2011/2896 (C. 103) |
| Adran 19 | 3.12.2011 | 2011/2896 (C. 103) |
| Adran 20 (yn rhannol) | 3.12.2011 | 2011/2896 (C. 103) |
| Pennod 4 o Ran 1 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym) | 15.1.2012 | 2012/57 (C. 2) |

* Mae'r darpariaethau hyn yn gymwys i'r Alban yn ogystal (gweler adran 239 o'r Ddeddf) a dygwyd hwy i rym o ran yr Alban gan yr un Gorchymyn.

| *Darpariaeth* | *Dyddiad cychwyn* | *O.S. Rhif* |
|---|---|---|
| Adran 21 (yn rhannol) ac Atodlen 2 (yn rhannol) | 3.12.2011 | 2011/2896 (C. 103) |
| Adran 21 ac Atodlen 2 (i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym) | 15.1.2012 | 2012/57 (C. 2) |
| Adran 22 (yn rhannol) ac Atodlen 3 (yn rhannol) | 3.12.2011 | 2011/2896 (C. 103) |
| Adran 22 (yn rhannol) ac Atodlen 3 (yn rhannol) | 15.1.2012 | 2012/57 (C. 2) |
| Adran 24 | 15.1.2012 | 2012/57 (C. 2) |
| Adran 26 (yn rhannol) ac Atodlen 4 (yn rhannol) | 31.1.2012 | 2012/57 (C. 2) |
| Adran 30 (yn rhannol) | 31.1.2012 | 2012/57 (C. 2) |
| Adran 36 (yn rhannol) | 15.1.2012 | 2012/57 (C. 2) |
| Adran 70 | 15.1.2012 | 2012/57 (C.2) |
| Adrannau 72 i 79 ac Atodlenni 5 i 7 | 3.12.2011 | 2011/2896 (C. 103) |
| Adran 115 | 15.1.2012 | 2012/57 (C. 2) |
| Adrannau 116 (yn rhannol) a 121 (yn rhannol) ac Atodlenni 10 i 12 (yn rhannol) | 15.1.2012 | 2012/57 (C. 2) |
| Adran 124(2) (yn rhannol) | 15.1.2012 | 2012/57 (C. 2) |
| Adran 128(2) * ac Atodlen 13 (yn rhannol) * | 15.1.2012 | 2012/57 (C. 2) |
| Adran 129 (yn rhannol) * | 15.1.2012 | 2012/57 (C. 2) |
| Adran 138(5) (yn rhannol) * | 15.1.2012 | 2012/57 (C. 2) |
| Adran 142(3) (yn rhannol) * | 15.1.2012 | 2012/57 (C. 2) |
| Adran 145 (yn rhannol) | 15.1.2012 | 2012/57 (C. 2) |
| Adran 146 (yn rhannol) a 147(2), (3), (4) a (5) (yn rhannol) | 15.1.2012 | 2012/57 (C. 2) |
| Adran 147(1) a (6) | 15.1.2012 | 2012/57 (C. 2) |
| Adran 150(1), (2) a (4) i (8) | 15.1.2012 | 2012/57 (C. 2) |
| Adrannau 151 a 152 | 15.1.2012 | 2012/57 (C. 2) |
| Adran 153 (yn rhannol) | 15.1.2012 | 2012/57 (C. 2) |
| Adran 154 (yn rhannol) | 15.1.2012 | 2012/57 (C. 2) |
| Adran 158 (yn rhannol) | 15.1.2012 | 2012/57 (C. 2) |

* Mae'r darpariaethau hyn yn gymwys i'r Alban yn ogystal (gweler adran 239 o'r Ddeddf) a dygwyd hwy i rym o ran yr Alban gan yr un Gorchymyn.

| *Darpariaeth* | *Dyddiad cychwyn* | *O.S. Rhif* |
|---|---|---|
| Adran 165 (yn rhannol) | 15.1.2012 | 2012/57 (C. 2) |
| Adran 176 | 15.1.2012 | 2012/57 (C. 2) |
| Adran 178 (yn rhannol) ac Atodlen 16 (yn rhannol) | 15.1.2012 | 2012/57 (C. 2) |
| Adran 186 (yn rhannol) | 15.1.2012 | 2012/57 (C. 2) |
| Adran 187(1) a (2) | 15.1.2012 | 2012/57 (C. 2) |
| Adran 187(3) a (4) (yn rhannol) | 15.1.2012 | 2012/57 (C. 2) |
| Adran 190 | 15.1.2012 | 2012/57 (C. 2) |
| Adran 191(2) i (5) | 15.1.2012 | 2012/57 (C. 2) |
| Adrannau 193 a 194 | 15.1.2012 | 2012/57 (C. 2) |
| Adran 195 (yn rhannol) | 15.1.2012 | 2012/57 (C. 2) |
| Adran 197 (3)(e), (f) a (5) | 15.1.2012 | 2012/57 (C. 2) |
| Adrannau 223 a 224 | 15.1.2012 | 2012/57 (C. 2) |
| Adran 230 | 15.1.2012 | 2012/57 (C. 2) |
| Adran 237 (yn rhannol) a Rhan 4 o Atodlen 25 (yn rhannol) a Rhannau 9, 11 i 13 a 25 o Atodlen 25 | 15.1.2012 | 2012/57 (C. 2) |
| Adran 237 (yn rhannol) a Rhan 5 o Atodlen 25 (yn rhannol) | 31.1.2012 | 2012/57 (C. 2) |
| Adran 237 (yn rhannol) a Rhannau 2 a 3 (yn rhannol) o Atodlen 25 | 18.2.2012 | 2012/411 (C. 11) |

* Mae'r darpariaethau hyn yn gymwys i'r Alban yn ogystal (gweler adran 239 o'r Ddeddf) a dygwyd hwy i rym o ran yr Alban gan yr un Gorchymyn.

Mae'r darpariaethau canlynol o'r Ddeddf wedi eu dwyn i rym o ran Lloegr gan orchmynion cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

| *Darpariaeth* | *Dyddiad cychwyn* | *O.S. Rhif* |
|---|---|---|
| Adran 68 | 15.1.2012 | 2012/57 (C. 2) |
| Adran 69(8) | 3.12.2011 | 2011/2896 (C. 103) |
| Adran 69 (yn rhannol) | 15.1.2012 | 2012/57 (C. 2) |
| Adran 237 (yn rhannol) a Rhan 9 o Atodlen 25 | 15.1.2012 | 2012/57 (C. 2) |